**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar y 21 Hydref 2013 yn Theatr y Ddraig, Abermaw**

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Louise Hughes, Eryl Jones-Williams, Gethin Glyn Williams, (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Lark Davies, R A Williams (Cyngor Tref Abermaw), Mr John Johnson (Cymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Bae Ceredigion), Mr Llew Griffin (Clwb Hwylio Meirionnydd), Mr Mark James (Cymdeithas y Bad Achub), Mrs Wendy Ponsford (Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw)

Sylwedydd: Y Cyng. David Richardson (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi)

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Llyr B. Jones | - | Uwch Reolwr Economi a Chymuned |
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Glyn Jones | - | Harbwr Feistr |
| Mr Huw Davies | - | Prif Beiriannydd |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu |
| Mrs Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:**

Y Cyng. John Wynn Jones (Aelod Cabinet), Eric Wilding (Cyngor Cymuned Arthog), Mr David Baily (Cymdeithas y Bad Achub)

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Gethin Glyn Williams i'r Gadair am y flwyddyn 2013-14.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2013-14.**

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Gethin Williams a Mrs Wendy Ponsford fuddiant personol mewn unrhyw fater a drafodir yn ymwneud â'r Clwb Hwylio gan eu bod yn Aelodau o'r Clwb.

4. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 19 Mawrth 2013.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

4.1 **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

(a) **Trwyn Penrhyn, Fairbourne** – Adroddwyd bod y pryder ynglyn â rheolaeth dros y llecyn tir lle mae faniau yn gwersylla dros nos ym Mhwynt Penrhyn wedi ei gyfeirio er sylw'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

5. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Abermaw gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

**(A) Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau**

(i) Cyfeiriwyd at adroddiad yr Aelod Cabinet a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 17 Medi 2013 i ddiweddaru trefniadau gweithredu ac atebolrwydd dyletswyddau rheoli Harbyrau'r Sir yn unol â Chod Diogelwch Morwrol.

(ii) Gosododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned y cyd-destun drwy nodi bod y Cod Diogelwch Morwrol yn berthnasol i bob awdurdod Harbwr ac yn gosod safon genedlaethol ar gyfer diogelwch morwrol porthladdoedd er budd diogelwch rhai sydd yn gweithio a defnyddio'r porthladdoedd, cychod, teithwyr a'r amgylchedd. Cyfeiria'r Cod at ddyletswyddau penodol ac yn sgil newid trefniadau llywodraethu'r Cyngor o Fwrdd i Gabinet y llynedd rhaid sicrhau bod trefniadau'r Cyngor yn unol â gofynion y Cod. Tynnwyd sylw at y tair elfen berthnasol o'r Cod sef atebolrwydd am ddiogelwch morwrol, dogfennau a'r Pwyllgorau Harbwr. O safbwynt atebolrwydd am ddiogelwch morwrol noda'r canllawiau bod Deilydd Cyfrifoldeb ar ran yr awdurdod Harbwr yn atebol am reoli gweithgareddau o fewn yr Harbwr ac argymhellwyd mai'r Cabinet fyddai yn ymgymryd a'r cyfrifoldeb hwn.. Rol y Deilydd Cyfrifoldeb fyddai:

- Cymryd gorolwg strategol a chyfeiriad i weithgareddau'r Harbwr gan gynnwys diogelwch morwrol
- Cyfrifoldeb am ddatblygu polisiau, cynlluniau, systemau a gweithdrefnau
- Sicrhau fod asesiadau ac adolygiadau yn cael eu cynnal
- Sicrhau fod yr awdurdod harbwr yn gorfodi rheoliadau, ac yn gosod trefniadau ariannol priodol

Roedd yn sylfaenol i adnabod "Person Dynodedig" allanol i gymryd gorolwg annibynnol bod y gyfundrefn rheoli diogelwch yn gweithredu'n effeithiol ac i archwilio cydymffurfiad yr awdurdod â'r Côd. Rhagwelir y byddai'r "Deilydd Cyfrifoldeb" yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cabinet ar berfformiad a gweithgareddau'r gwasanaeth. Yn unol â swyddogaethau'r cod y "Prif Swyddog" fydd Rheolwr Gwasanaeth Morwrol a'r "Harbwr Feistr" fyddai'r Harbwr Feistri yn Abermaw, Aberdyfi, Porthmadog a Phwllheli sydd wedi eu penodi o fewn y Gwasanaeth Morwrol.

(iii) Noda'r Côd yr angen i ymgynghori gyda phartïon priodol ynglŷn â gweithgareddau'r Harbwr ac ystyriwyd bod cyfle i ddiweddaru trefniadau'r Pwyllgorau Harbwr ac i fabwysiadu cyfansoddiad safonol a meysydd gwaith yn unol â chanllawiau'r cod.

(iv) Cyfeiriwyd a thywyswyd yr Aelodau drwy gylch gorchwyl penodol a luniwyd gan yr Uned Gyfreithiol i'r Pwyllgorau Harbwr presennol a oedd yn cyfarch Aelodaeth, Penodi Cadeirydd ac

Is-gadeirydd, Cworwm a Phleidleisio, Amlder Cyfarfodydd a swyddogaethau'r Pwyllgor. Aelodaeth y Pwyllgor Ymgynghorol fydd:

- Hyd at bedwar aelod lleol o Gyngor Gwynedd
- Aelod Cabinet
- Un aelod o Gyngor Tref
- Hyd at saith aelod arall i gynrychioli gwahanol fuddiannau defnyddwyr yr harbwr

Etholir Cadeirydd i'r Pwyllgor Ymgynghorol o blith aelodau sy'n gynghorwyr sir i gadeirio'r cyfarfodydd. O safbwynt rôl y Gadair, nodwyd y byddai'n:

- rhoi cysondeb o Gadeiryddiaeth y Pwyllgorau Harbwr
- yn gyfle i fedru cael mewnbwn gwybodaeth leol
- cyfle i'r Cadeirydd lywio trafodaethau pellach gyda'r Aelod Cabinet a'r Gwasanaeth Morwrol

(v) Pwysleisiwyd y byddai'n cymryd amser i'r trefniadau uchod ddod i rym ond roedd yn fodd o sicrhau cysondeb ar draws Pwyllgorau Harbwr sydd yn gyfrifoldeb Cyngor Gwynedd.

(vi) Yn ystod y drafodaeth ddilynol ynglŷn â'r cylch gorchwyl, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

(a) y byddai'n fwy synhwyrol i ethol Is-gadeirydd o blith defnyddwyr yr Harbwr sydd ag arbenigedd ac yn wybodus am weithgareddau'r dŵr a'r harbwr
(b) tra'n derbyn bod y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro yn cymeradwyo'r trefniadau arfaethedig, teimlwyd y byddai'r aelodaeth yn gyfyngedig o ystyried mai dim ond tri Aelod o'r Sir a fydd yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Ymgynghorol
(c) byddir yn colli allan ar arbenigedd gwerthfawr
(d) gofynnwyd beth fyddai cyfrifoldebau ac faint mor atebol fyddai'r Pwyllgor Ymgynghorol pe byddai unrhyw ddigwyddiad trychinebus yn digwydd
(e) bod gan yr Aelodau Cabinet lwyth gwaith sylweddol ac ni ellir disgwyl iddynt fod yn bobman ac awgrymyd ystyried a fyddai'n fuddiol sefydlu Gweithgor o'r Pwllgor Ymgynghorol i ymgymryd â gwaith ymchwil penodol, pe cyfyd yr angen, i'r Aelod Cabinet
(f) deallir bod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi pan drafodwyd y cylch gorchwyl yn ei gyfarfod yn ddiweddar wedi awgrymu y dylai'r cyrff / sefydliadau fod yn gyrff cyfansoddiadol cyflawn ac awgrymwyd ymhellach y dylai'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn gymryd yr un safiad
(g) y byddai'n fuddiol cynnal cyd-gyfarfod blynyddol o'r pedwar Pwyllgor Ymgynghorol (Abermaw, Aberdyfi, Porthmadog a Pwllheli) ar gyfer rhannu profiadau a chael trosolwg o weithgareddau yn yr Harbyrau eraill

(vii) Mewn ymateb i'r pryderon uchod nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned a'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig:

- Bod maintais o gael aelod o'r Sir yn y Gadair gan eu bod yn gyfarwydd o drefniadau, cyfansoddiad a gweithdrefnau'r Cyngor a'u bod yn rhwydd iddynt gyfeirio a chael trafodaethau pellach gyda'r Aelod Cabinet a'r Gwasanaeth Morwrol pe cyfyd pryderon ynglyn ag unrhyw elfen o weithgareddau'r Harbwr
- tra'n derbyn y byddir yn colli aelodau o'r Cyngor Tref ond yr un pryd y byddir yn elwa o gael tri aelod ychwanegol ymhlith defnyddwyr yr harbwr gan bod y nifer wedi cynyddu i hyd at saith ac mai dim ond pedwar corff sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd ac yn hyn o beth yn cynyddu'r arbenigedd

- pwysleiswyd mai Cabinet y Cyngor fyddai'n gyfrifol am ddigwyddiadau yn yr Harbwr ac mai rôl ymgynghorol sydd gan y Pwyllgor hwn ac felly bod unrhyw gyfrifoldeb yn disgyn ar y Cabinet. Pwysleiswyd ymhellach i Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol godi unrhyw fater o bryder yng ngweithgareddau'r Harbwr gyda'r Gwasanaeth Morwrol a fyddai yn ei dro yn ymgynghori ymhellach gyda'r Aelod Cabinet perthnasol pe byddai angen
- bod y cyfansoddiad wedi ei fabwysiadau gan y Cabinet ond y byddir yn ymgynghori ymhellach ynglyn ag aelodaeth, a.y.b.
- o safbwynt cynnal cyd-gyfarfod o'r pedwar Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr, pwysleiswyd bod cymaint o amrywiaeth yng ngweithgareddau pob Pwyllgor ac atgoffwyd bod sylwedyddion wedi eu hethol gyda'r hawl i fynychu ac yn medru rhannu gwybodaeth i'r Pwyllgorau maent yn gynrychioli. Yn ogystal, rhaid cofio bod y gost o weinyddu'r Pwyllgorau yn disgyn ar y pedwar Pwyllgor Ymgynghorol. Fodd bynnag, credir y byddai'n fuddiol i Gadeiryddion y pedwar Pwyllgor Ymgynghorol gwrdd i rannu gwybodaeth. Wrth gwrs, byddai modd awgrymu'r cynnig i'r Aelod Cabinet er ystyriaeth pellach.
- Byddai materion i'w trafod yn y Pwyllgor Ymgynghorol yn cael eu cyfyngu i faterion yn ymwneud â'r Harbwr yn unig gyda materion eraill megis consesiynau, glendid traeth, a.y.b. yn cael eu cyfeirio i bwyllgor arall priodol.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Aelod Cabinet Economi:**

**(i) ystyried y posibilrwydd i'r pedwar Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr (Abermaw, Aberdyfi, Porthmadog a Phwllheli) gynnal cyd-gyfarfod blynyddol er mwyn cael trosolwg o weithgareddau ei gilydd**
**(ii) sicrhau bod y gwahanol sefydliadau / cyrff defnyddwyr yr Harbwr a wahoddir i'r Pwyllgor Ymgynghorol yn gyfansoddiadol gan ofyn iddynt gyflwyno cofnodion cymwys o'u Cyfarfodydd Blynyddol a'u cyfansoddiad fel meini prawf**

**(B) Cod Diogelwch Harbyrau**

(i) Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at y Cod Diogelwch ynghyd â Chynllun Gweithredu Gwynedd a anfonwyd i Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol gyda'r rhaglen gan nodi mai cynllun generic ydoedd ar gyfer Gwynedd gyfan ac y byddai'r cynllun yn cael ei adolygu'n flynyddol gan arbenigwr. Nododd ymhellach nad oedd y Cod Diogelwch yn statudol ond ei fod yn ymarferiad da iawn gyda'r un canllawiau yn bodoli ar unrhyw Harbwr ar hyd a lled y wlad ac felly yn rhoi fframwaith cadarn ar gyfer dyletswyddau. Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol gymryd golwg dros gynnwys y Cod a'r Cynllun Gweithredu ac anfon eu sylwadau i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i'w gwyntyllu ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor Ymgynghorol ym mis Mawrth 2014.

(ii) Nodwyd cywiriad ar dudalen 23 o'r Cynllun Gweithredu i ddiddymu "Pont Briwet" ac ychwanegu "Pont Penmaenpool"

**Penderfynwyd: Gofyn i Aelodau anfon sylwadau ar gynnwys y Cod Diogelwch a'r Cynllun Gweithredu a'u hanfon i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig er ystyriaeth pellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ym mis Mawrth 2014.**

**(C) Mordwyo ac Angorfeydd**

(i) Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at reoliadau Cyngor Gwynedd ar gyfer sicrhau diogelwch a threfn ar y dwr sydd hefyd wedi eu mabwysiadu gan Gynghorau Ynys Môn a Chonwy, yn ogystal âg awdurdod yn Ne Cymru ac un awdurdod yn Lloegr. Cyfeiriwyd at ddwy ddamwain difrifol yng Ngwynedd eleni sef un ar draeth y Waren lle roedd bachgen ifanc

13 oed yn gyrru Bad Dwr Personol ac iddo daro ceufad gyda phedwar o blant ynddo, ynghyd â dau Bad Dwr Personol yn taro ei gilydd yn ardal Harbwr Porthmadog.  Fodd bynnag, o ystyried y nifer helaeth sydd yn mordwyo'r arfordir, ychydig iawn o ddamweiniau difrifol sydd wedi digwydd.  Atgoffwyd yr Aelodau nad yw Bad Dwr Personol yn cael ystyriaeth o dan y Ddeddf Llongau Masnach oherwydd penderfyniad a gymerwyd yn yr Uchel Lys yn 2005. Gwerthfawrogwyd unrhyw sylwadau ar y rheoliadau.

(ii)	Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglyn â chymhwysterau a chyfyngiad oed ar gyfer gyrru Bad Dwr Personol, nododd y Swydog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oes gofyn i unrhyw unigolyn feddu ar gymhwyster i yrru unrhyw gwch ar gyfer diddordeb pleser ar ddyfroedd Prydain nac ychwaith nid oes cyfyngiad oedran. Fodd bynnag, roedd gofyn i dynhau rheoliadau'r Cyngor y gorau gellir i leihau digwyddiadau o'r fath.   Yng nghyswllt Traeth y Waren, eglurwyd bod y Cyngor wedi goruchwylio gweithgareddau ar y traeth yn y gorffennol ond ers oddeutu dwy flynedd bod cwmni preifat sy'n berchen ar safle hamdden wedi ymgymryd â'r dyletswyddau.  Fodd bynnag, yn dilyn y digwyddiad uchod cynhaliwyd trafodaethau rhwng y Gwasanaeth Morwrol a'r cwmni peifat ac fe fydd trafodaethau pellach yn cael eu trefnu er trafod y posibilrwydd o ail-ymgymryd â goruchwylio'r gweithgareddau traeth y Waren yn 2014. Eglurwyd ymhellach bod rheol yn gwahardd cychod i yrru mwy na 4 milltir môr yr awr o fewn 100 medr o'r arfordir ac mae rhif cofrestr ar y cwch lle gellir ei nodi ac adrodd i'r Harbwr Feistr o unrhyw gam-ddefnydd o'r rheolau.

(iii)	Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglyn â gosod bwiau traeth yn ardal Caerddaniel, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y Gwasanaeth wedi gorfod adolygu'r sefyllfa ar hyd a lled yr arfordir o safbwynt costau o'u cynnal a'u cadw a hyn yn bennaf gan fod yn debygol bod nifer helaeth o'r bwiau yn cael eu dwyn yn ardal Abermaw.  Yn flynyddol fe gollir nifer sylweddol o fwiau i'r lan yn ardal Abermaw.  Prysurwyd i ddweud bod safle Caerddaniel yn cydymffurfio a chydweithio'n dda iawn gyda'r Gwasanaeth Morwrol ac fe fyddir yn ail-ystyried i osod y bwiau ar gyfer flwyddyn nesaf gan eu bod o fudd i bawb.

(iii)	Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y cymhorthion mordwyo wedi aros ar eu safle ac wedi derbyn cadarnhad ffafriol gan Ty'r Drindod yn dilyn archwiliad.

(iv)	Mewn ymateb i'r uchod, nododd Aelod bod y cymhorthion mordwyo yn dda iawn ac yn hawdd i'w gweld ac y dylid llongyfarch y Gwasanaeth yn hyn o beth.

**Penderfynwyd:	Derbyn a nodi'r uchod.**

**(CH)	Ystadegau Morwrol**

(i)	Cyflwynwyd, er gwybodaeth, i'r Aelodau ystadegau angorfeydd harbwr, ystadegau harbyrau eraill ynghyd ag ystadegau cyffredinol.  Gwelir lleihad yn y niferodd o gychod eleni ond prysurwyd i nodi bod hyn yn dueddiad cyson ymhob Harbwr ar hyd a lled y wlad.  Nodwyd bod 75 o lefydd gwag yn Hafan Pwllheli ac sydd yn adlewyrchiad o'r sefyllfa economaidd yn hytrach nac ansawdd yr Harbyrau.  Roedd y sefyllfa yn Abermaw yn gyson o'i gymharu â ffigyrau flwyddyn diwethaf gyda chynnydd yn y nifer o gychod pwer a badau dwr personol.

(ii)	Braf ydoedd nodi y gwelir llawer o unigolion lleol gyda angorfeydd.

(iii)	Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â defnydd y pontŵn, nododd yr Harbwr Feistr bod llawer yn awyddus i ddefnyddio'r pontŵn ond bod yn rhaid cynnal trafodaeth ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol amdano.  Tueddiad ydoedd i gychod lleol aros yno a pheidio symud ac o ganlyniad yn creu rhwystr i gychod ymwelwyr ddod i mewn i'r Harbwr. Does dim byd yn ysgrifenedig i wahardd cychod aros ar y pontŵn ac mae hyn yn creu anhawster i'r Harbwr Feistr pan mae cychod yn aros am dyweder ddyddiau lawer. Pwysleisiodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod yn rhaid trafod ymhellach berchnogaeth y pontwn ac mai ei brif bwrpas ydoedd i

ymwelwyr yn unig a ddim i ddefnyddwyr cyffredinol yr Harbwr aros yno am ddyddiau lawer. Roedd hyn yn anheg iddynt gymryd mantais o’i ddefnydd ac o’r 1af Ebrill 2014 byddir yn codi ffi arnynt i geisio cael rheolaeth o’i ddefnydd.  Oherwydd bod gwahaniaeth barn ymysg yr Aelodau awgrymwyd, i geisio datrys y ffordd ymlaen, y byddai’n fuddiol sefydlu Is-bwyllgor o’r Pwyllgor Ymgynghorol hwn i drafod ymhellach gyda’r Harbwr Feistr, cynrychiolwyr o’r Cyngor Tref a busnesau lleol a leolir wrth y cei, i gynnig syniadau.

(iv) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn âg yswirio’r pontŵn, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig mai’r Cyngor sydd yn ei yswirio ar hyn o bryd.  Tynnwyd sylw ymhellach bod cost sylweddol i’w gynnal drwy orfod tynnu’r bysedd dros y gaeaf.  Bydd angen trafodaeth benodol gyda’r Clwb Hwylio a’r Gwasanaeth Morwrol ynglyn â pherchnogaeth y pontŵn mor fuan ag sy’n bosibl.

(v) Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglyn â chais i gynnal a chadw ei gwch ar ochr y cei, cadarnhawyd y gall yr Harbwr Feistr roi caniatad  iddo gadw’r cwch ar wal y cei am gyfnod byr ar gyfer cynnal a chadw heb unrhyw gost ychwanegol i’r unigolyn.

**Penderfynwyd: (a) Gofyn i’r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig drefnu cyfarfod brys gyda’r Clwb Hwylio i drafod perchnogaeth y** pontŵn**; ac yna**

**(b) Sefydlu Is-bwyllgor o’r Pwyllgor Ymgynghorol hwn i drafod a datrys defnydd a chyfrifoldeb o’r** pontŵn **mor fuan ag sy’n bosibl.**

## (D) Cyllidebau Harbyrau

(i) Gwnaed cywiriad gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn yr atodiadau cyllidebol gan nodi mai DG54 ydoedd adroddiad cyllidol ar gyfer Harbwr Abermaw. Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr Aelodau drwy adroddiad cyllidol yr Harbwr 2012-13 gan nodi bod £8,545.81 o arbediad o dan y pennawd costau gweithwyr ac £11,881.93 o orwariant o dan y pennawd costau adeiladau.  Roedd cyfanswm gwariant rhedeg yr Harbwr yn £63,003 gyda’r gwir wariant yn £68,585.76 a olygai gorwariant o £5,582.76 yn fwy na’r incwm a wnaed yn Harbwr Abermaw y llynedd.  O safbwynt incwm nodwyd bod y targed yn £48,360 a chasglwyd £36,326.38 mewn incwm a olygai lleihad o £12,033.62 a olygai gorwariant o £17,616.38 ar gyfer y flwyddyn diwethaf.  Pwysleiswyd bod yn rhaid i’r Gwasanaeth Morwrol felly ddarganfod y gorwariant o fewn yr Harbyrau eraill.

(ii) Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, eglurwyd bod y pennawd costau adeiladau yn cynnwys cynnal a chadw tiroedd o amgylch yr Harbwr megis adeiladau’r SS Dora, unrhyw waliau, ffensys ym mherchnogaeth y Gwasanaeth.

(iii) Cyfeiriwyd at y sefyllfa at ddiwedd mis Awst 2013 gyda’r sefyllfa incwm yn dangos bod y Gwasanaeth oddeutu £10,000 yn fyr o gyrraedd y targed ac ni ragwelir cynnydd o £2000 / £3,000 yn ychwanegol.

(iv) O safbwynt angorfeydd  ol a blaen (trots), eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai’n rhaid gweithio allan yn fanwl faint o incwm y byddir wedi greu pe bai’r Gwasanaethau wedi rhoi angorfeydd unigol yn yr Harbwr, ond fe welir o’r tabl ynghlwm i’r rhaglen bod yr angorfeydd ol a blaen wedi creu ychydig dros £3,000 i’r Harbwr.  Ychwanegodd yr Harbwr Feistr bod yn rhaid cymryd i ystyriaeth costau cynhyrchu’r angorfeydd trot sef £1,000 o’i gymharu â chreu 5 angorfa unigol ar gost o oddeutu £3,000.

(v) Mewn ymateb i’r uchod, nododd Aelod tra’n derbyn bod angorfeydd ol a blaen yn broffidiol ac yn ffurf dda o roi llawer o gychod mewn lle bach, yn draddodiadol nid oeddynt yn gweithio yn llwyddiannus yn Abermaw gan bod y nifer o gychod sydd wedi suddo oddi ar

angorfeydd ol a blaen yn gyfatebol uwch na'r nifer sydd wedi suddo ar fwiau. Mynegwyd pryder ynglyn â lleoliad angorfeydd ol a blaen gan ei fod yn cyfyngu mynediad i gychod hwylio yn enwedig o'r ardal a elwir y "fynwent". Apeliwyd felly i gymryd hyn i ystyriaeth os yn ystyried gosod mwy ohonynt i'r dyfodol.

(v) Rhagwelir i gynyddu ffioedd a thaliadau oddeutu 2% - 2.5%.

(vi) Nododd Aelod bod defnyddwyr lleol yn y gorffennol wedi derbyn gostyngiad yn y ffioedd. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod rhaid bod yn ofalus ar sut diffinir "lleol" a'i fod yn hawdd rheoli un ffi. Rhaid cofio hefyd yr heriau sylweddol o ran arbedion a wynebai'r Cyngor i'r dyfodol. Ychwanegwyd bod yn rhaid edrych ar y budd economaidd o'r Harbyrau i bentrefi ar yr arfordir.

(vii) Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglyn â pham bod gweithredwyr masnachol yn manteisio ar gymhorthdal gan y Cyngor, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddir yn cynnal adolygiad manwl o'r ffioedd a thaliadau gan gymryd i ystyriaeth y posibilrwydd i beidio cynnig gostyngiad i ddefnyddwyr yr Harbwr yn 2014. Wrth gwrs, rhaid pwyso a mesur costau ychwanegol a bod pysgotwyr yn ceisio gwneud bywiolaeth.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(DD) Digwyddiadau**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig:

(i) Er nad oedd y Gwasanaeth wedi derbyn canlyniadau ansawdd dwr ymdrochi, hyderai y byddir yn llwyddiannus i gael y Faner Las i Abermaw yn 2014
(ii) O safbwynt y Gorchymyn Rheolaeth Cwn, nad oedd yn ymwybodol bod dirwy wedi ei roi i berchennog ci yn Abermaw. Unwaith y bydd yr Harbwr Feistr wedi cymhwyso byddai'r hawl ganddo i roi dirwy i berchennog ci sydd yn mynd ar ardal gwaharddedig i gwn. Ychwanegwyd bod Abermaw yn anodd iawn i'w reoli cyn belled a bo cwn yn y cwestiwn.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(E) Consesiynau a Gwelliannau**

(i) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod erthygl ar gyfleusterau ac adnoddau Harbwr Aberdyfi ac Abermaw wedi ymddangos yn llyfr cyfeirydd "Cruising Anglesey Guide" a'i fod ar gael ar y We.
(ii) O safbwynt marchnata, nodwyd bod hysbyseb wedi ymddangos yn PBO ar gost sylweddol ac fe fyddir yn ail-ystyried y strategaeth ar gyfer flwyddyn nesaf
(iii) Nodwyd bod y mwyafrif o ysgolion yr Harbwr wedi eu hadnewyddu.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(F) Diogelwch Offer Morol**

Adroddodd y Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau bod PCSO Paul Duggan yn gyfrifol am faterion morol a phwysleiswyd dylai Aelodau annog pob morwr i gofrestru eu heiddo gyda'r Heddlu.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodir' uchod.**

**(FF) Staff Harbwr**

(i) Cyflwynwyd i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod raglen waith yr Harbwr Feistr a thynnwyd sylw bod Harbwr Feistr Aberdyfi yn ymddeol diwedd mis Hydref. Byddir yn penodi unigolyn dros dro yn ei le o 1 Tachwedd gyda'r bwriad o benodi olynydd yn barhaol ym mis Chwefrof 2014. O ystyried hyn, ni ddisgwylir i Harbwr Feistr Abermaw gynorthwyo yn Aberdyfi a'r bwriad yw i ddau aelod o staff o Ogledd y Sir gynorthwyo am ddiwrnod a hanner yr wythnos yn Abermaw fydd yn ei dro yn cynnyddu'r capasiti a fydd o gymorth i gwblhau'r dyletswyddau ar y rhaglen waith yn ystod y gaeaf.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**6. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

(a) Gwaith i'r Bont - nodwyd ni dderbyniwyd ymateb gan Network Rail ynglyn â'r gwaith i'r bont.

(b) Gofynnodd Aelod a fyddai modd cadw Cymdeithas Defnyddwyr yr Harbwr yn y darlun ynglyn ag unrhyw waith yn enwedig newid i'r bathymetreg oherwydd pryder ynglyn â chyflwr y caergawelli.

Mewn ymateb, sicrhaodd y Prif Beiriannydd na fyddir yn ymestyn y caergawelli.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(b) Cynllun Datblygu'r Harbwr, Carthu ac Angorfeydd

(i) Nododd Aelod bod Cymdeithas Defnyddwyr yr Harbwr wedi trafod gyda'r Harbwr Feistr ac wedi cael addewid na fyddir yn gosod mwy o angorfeydd ol a blaen ar yr ochr ogleddol. Roedd Cymdeithas Defnyddwr o'r farn y byddent yn cyfyngu mordwyo, pe byddai mwy ohonynt yn cael eu gosod.

(ii) Bod y Gymdeithas Defnyddwr yn gwneud sylw am yr angen i garthu ac yn pryderu am y mwd sydd ar waelod y brif lithrfa a gofynnwyd a fyddai'n bosibl ei gynnal drwy garthu.

(iii) Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd yn rhagweld y bydd unrhyw waith carthu yn digwydd i'r dyfodol ac y byddai'n rhaid ystyried ffurf arall o'i reoli. Bu i'r Gwasanaeth fuddsoddi oddeutu £50,000 yn y gorffennol ar garthu ar hyd wal y cei gyda ddim llawer o lwyddiant.

(iv) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- Tra'n derbyn bod y Cyngor dan bwysau yn ariannol, teimlwyd bod rhaid weithiau mentro i greu fwy o incwm a phe byddir yn carthu ardal y Baddon gellid creu fwy o lefydd i angorfeydd ac felly cronni fwy o incwm i'r Harbwr. Drwy wneud hyn gellir wedyn creu cynllun datblygu i'r Harbwr.
- Awgrymwyd sefydlu Is-bwyllgor ar gyfer y cynllun datblygu fel bo modd trafod ffurf eraill i godi arian

- Gofynnwyd oni ellir gwerthu'r tywod am swm nominal ar gyfer tirlenwi safle Ffridd Rasus, Harlech, pan yn cau

(v) Mewn ymateb, esboniodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned a'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y Cyngor yn wynebu heriau ariannol dros y pum mlynedd nesaf. Tra'n derbyn yr angen am gael cynllun datblygu i'r Harbwr byddai'n rhaid bod yn ymarferol o'r hyn ellir ei wireddu yn yr hinsawdd sydd ohoni. Tra'n derbyn bod yn rhaid bod yn uchelgeisiol, go brin y byddir mewn sefyllfa i wneud unrhyw waith carthu i'r dyfodol. Nodwyd ymhellach bod y gyfundrefn yn rhoi cymaint o bwyslais o ran casglu data amgylcheddol a bod unrhyw gais yn costio'n sylweddol.

(vi) Ychwanegodd y Cadeirydd efallai mewn oddeutu dwy neu dair blynedd y byddai modd cydweithio hefo'r trydydd sector mewn cynlluniau o'r fath.

(vii) O safbwynt safle Ffridd Rasus, cadarnhawyd bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i symud tywod ar gyfer defnydd tirlenwi pe byddai angen.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(c) Llithrfa Newydd

Adroddodd Aelod o Gymdeithas Defnyddwyr yr Harbwr y nodwyd yng nghofnodion diwethaf y cyfarfod hwn y byddir yn gofyn i'r Prif Beiriannydd ymweld â sefyllfa yn ardal y Baddon".

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Aelod gymryd gair â'r Prif Beiriannydd ar derfyn y cyfarfod hwn.**

(ch) Pontŵn a Chamerau Cylch Cyfyng

(i) Tra'n derbyn bod sustem cylch gyfyng yn bodoli'n barod, cais Cymdeithas y Defnyddwyr ydoedd cael defnydd gwell ar gyfer y pontwn er cynorthwyo'r Harbwr Feistr i gadw rheolaeth arno.

(ii) Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod presenoldeb dynol ar y pontwn yn llawer mwy effeithiol i'w reoli yn hytrach na chamerau

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(d) Marciau Traeth

Ategodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'r Uned yn trafod yr uchod ymhellach i weld beth yw'r gofynion a lleoliadau a'i fod yn ymwybodol o'r angen i sicrhau rhai yn ardal Caerddaniel ar gyfer flwyddyn nesaf.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

(a) Adroddwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar dydd Iau, 20 Mawrth 2014.

**Penderfynwyd** **Derbyn a nodi'r uchod.**

**CADEIRYDD.**